Datganiad i'r Wasg

Mae Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn croesawu cyhoeddiad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ymgysylltu â'r eglwysi a grwpiau ffydd eraill yn ystod y cyfnod o ddatblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion ac yn gwerthfawrogi eu bod wedi cymryd nifer o'n pryderon a'n hawgrymiadau i ystyriaeth.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Addysg Grefyddol (AG) wedi'i ddiogelu fel rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd a bod y pwnc yn mynd i gael ei gynnwys bellach mewn dosbarthiadau meithrin ysgolion y wladwriaeth, gan fod gwerthfawrogi gwahanol ffyrdd crefyddol o ddeall y byd yn bwysicach nag a fu erioed yn y Gymru gyfoes.

Croesawn yn ogystal y bwriad i gadw Cynghorau Sefydlog Statudol Addysg Grefyddol lleol (CYSAGau) sy'n helpu i sicrhau perchnogaeth sirol i'r AG a addysgir mewn ysgolion. Croesawn hefyd y penderfyniad i gyhoeddi Fframwaith Ategol Cenedlaethol er mwyn cynorthwyo CYSAGau i ddatblygu eu meysydd llafur sirol lleol. Edrychwn ymlaen i gyfrannu at ddatblygiad y fframwaith newydd hwn.

Nodwn y bydd yn cynnwys arweiniad ar addysgu safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol. Er ein bod yn derbyn bod lle i'r safbwyntiau hyn yn y cwricwlwm, byddem yn anfodlon petai'n ofynnol i AG roi lle cyfartal i safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol fel yn yr un modd na ddylai'r cwricwlwm Gwyddoniaeth roi sylw cyfartal i safbwyntiau nad ydynt yn wyddonol.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymgynghori ar hawl rhieni i dynnu eu plant allan o wersi AG ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Rydym yn annog ein heglwysi ac unigolion i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sy'n parhau tan 25 Mawrth ac i ymgynghoriad drafft y cwricwlwm sydd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill.

(Hoffwn ddiolch i Gethin Rhys, Cytûn am ei arweiniad ar y mater hwn)

Vaughan Salisbury – Cynrychiolydd Addysg, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.